**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**CYFARFOD: 20 Rhagfyr 2000**
**Agenda Eitem: 2**

## DEDDF CYNLLUNIO TREF A GWLAD 1990
## CYNLLUNIO TREF A GWLAD (DATBLYGIAD CYFFREDINOL) GORCHYMYN 1995 - HYD HEDDIW
## DEDDF CYNLLUNIO A IAWNDAL 1991
## RHEOLIAD HYSBYSEBU CYNLLUNIO TREF A GWLAD 1994
## DEDDF CYNLLUNIO (ADEILADAU RHESTREDIG A CHADWRAETH) 1990

# CEISIADAU AM GANIATAD DATBLYGU

Adroddiadau ac argymhellion gan Swyddogion i'w hystyried a'u datrys gan Awdurdod Cynllunio'r Sir.

Bydd pob cais am y cynigion a nodir yn yr adroddiad hwn ar gael i'w archwilio gan Aelodau o'r Pwyllgor cyn ac yn ystod y cyfarfod lle ystyrir y ceisiadau.

Gellir gweld y Papurau Cefndir i bob cais, gan gynnwys ffurflenni, cynlluniau, gohebiaeth, Cynllun Datblygiad a dogfennau arweiniad yn ystod yr oriau swyddfa arferol.

**copiau ar gael gan y Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio**

**ADRODDIAD GAN Y PENNAETH GWASANAETHAU CYNLLUNIO**
**DATBLYGIAD TELEGYFATHREBU**

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Crynhoi rheoliadau cynllunio cyfredol ar ddatblygiadau telegyfathrebu a'r prif faterion i'w hystyried yn wyneb cynnydd ceisiadau i'r Cyngor i'w hystyried fel yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

## 2. RHEOLIADAU CYNLLUNIO

2.1 Mae "Town and Country Planning (General Permitted Development) Order 1995" yn caniatau rhai mathau o ddatblygiadau telegyfathrebu sydd ddim angen caniatad cynllunio. Mae rhai gofynion ar rai mathau o ddatblygiadau telegyfathrebu a roddir yn y gorchymyn. Mae hyn yn arwain at nifer o wahanol lefelau rheolaeth a nodir isod :

***Mân offer telegyfathrebu***
Mae rhai mathau o soseri lloeren (satellite dishes), antennae ac offer radio yn cael caniatad datblygiad heb angen unrhyw rybudd.

***Offer telegyfathrebu ar wahan i fastiau ar y llawr***
Am fastiau a osodwyd ar adeiladau (buildings or structures), blychau ffôn cyhoeddus, offer radio mawr, a datblygiad atodol mae angen rhoi rhybudd i'r Awdurdod Cynllunio Lleol am y gwaith arfaethedig o dan gymeradwyaeth flaenorol. Gall y Cyngor ystyried mater gosod ac ymddangosiad o fewn 28 dydd a naill ai gymeradwyo neu wrthod caniatad. Os na cheir penderfyniad gall y gweithredwr symud ymlaen gyda'r datblygiad.

***Mastiau ar y llawr***
Caiff Mastiau ar y llawr hyd at 15m o uchder eu rheoli trwy drefn lle caiff yr Awdurdod Cynllunio Lleol 42 dydd i wneud penderfyniad. Unwaith eto rhaid i'r Cyngor ystyried mater gosod ac ymddangosiad a rhaid cael penderfyniad o fewn 42 dydd. Yn wahanol i'r trefniant 28 dydd mae'n rhaid i'r ymgeisydd roi rhybudd ger y safle i nodi ei fwriad. Hefyd rhaid ymgynghori â Chynghorau Tref a Chymuned gan nodi cyfyngiadau ein pwerau.

*Ceisiadau am ganiatad cynllunio*

Mae mastiau ar lawr dros 15m o uchder ac unrhyw fastiau o fewn yr Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol angen caniatad cynllunio. Bydd angen trefnu cyhoeddusrwydd, ymgynghori a chael y penderfyniad arferol i hynny.

2.2 Oherwydd cyfyngiad amser ar ddelio â cheisiadau does dim angen delio â chynigion o'r fath o dan bwerau dirprwyedig hyd yn oed mewn achosion lle na dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau.

3. **MATERION CYNLLUNIO**

3.1 Y canlynol yw'r prif faterion i'r Cyngor eu hystyried cyn eu cymeradwyo a rhoi cais cynllunio i telegyfathrebu:

***Safle***
Effaith ar ymddangosiad yr ardal ac a ellid eu lleoli rywle gwell ar adeilad neu strwythur neu fel rhan o fast neu safle arall.

***Ymddangosiad***
Cynllun y mast ei hun (gellir defnyddio mastiau sengl un polyn yn hytrach na mastiau o fath lattice), ei liw a defnyddiau a thirlunio i guddio offer cysylltiedig, ffensio a rhanau isaf y mast.

***Iechyd***
Y cyngor yw y gallai radiowaves fod lawer iawn is na lefel yr arweiniad a roddwyd gan y "National Radiological Protection Board" ac ni ddylai beryglu iechyd (TAN (Wales) 19 - Telecommunications). Fodd bynnag mae Adroddiad Stewart yn awgrymu bod yn ofalus a chefnogir hynny gan y Cynulliad Dywedir :

*"Health considerations and public concern, can in principle, be material considerations in determining applications for planning permission and prior approval."*

***Polisi ac Arweiniad Cynllunio***

Mae'r Cyngor angen ystyried y polisiau presennol ac arweiniad ar ffurf "Planning Guidance (Wales) - Planning Policy; TAN (Wales) 19 - Telecommunications; a Chylchlythyr y Swyddfa Gymreig rhif 22/99 - "Planning for Telecommunications." Yn y Cynllun UDP newydd mae polisi ar delegyfathrebu (Polisi TRA15).

**4. RHEOLIADAU YN Y DYFODOL**

4.1 Mae'r Cynulliad wedi trefnu papur ymgynghorol at ddatblygu mastiau telegyfathrebu. Yn dilyn argymhelliad Adroddiad Stewart bwriedir newid 28 dydd am rybydd 42 dydd i fastiau ar adeiladau a strwythurau mastiau

ar y llawr gyda'r gofyniad bod raid cael caniatad cynllunio. Byddwn yn cefnogi'r argymhelliad hwn wrth ymateb i'r papurau ymgynghorol.

5. **GWYBODAETH BELLACH**

5.1 Mae'r ddogfen y cyfeirir ati yn rhoi mwy o wybodaeth ar drefn materion datblygu telegyfathrebu. Gellir gweld y papur ymgynghorol ar wefan Y Cynulliad (www.wales.gov.uk). Rhoddir cyngor hefyd o fewn ein Arweiniad "Supplementary Planning Guidance Note No. 24 - Telecommunications", er y cyhoeddwyd hwnnw cyn y cyflwynwyd y drefn 42 dydd a chaiff ei ddiweddaru yn dilyn unrhyw ddeddfwriaeth sy'n codi o'r ymgynghori cyfredol.

6. **Mae'r adroddiad hwn er gwybodaeth i Aelodau.**

PWYLLGOR CYNLLUNIO
**20 Rhagfyr 2000**
**AGENDA EITEM**. 4

**ADRODDIAD GAN Y PENNAETH GWASANAETHAU CYNLLUNIO**

**DYDDIAD YMWELIADAU SAFLE**

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

**1.1** Cynghori Aelodau am ddyddiad tebygol unrhyw Ymweliad Safle y gofynnir amdano gan y Pwyllgor Cynllunio.

## 2. DYDDIAD YR YMWELIAD SAFLE

**2.1** Mewn ymgynghoriad â Adran Gyfreithiol & Gweinyddol penderfynwyd mai **dydd Gwener 5 Rhagfyr 2001** sydd fwyaf addas. Trefnwyd y dyddiad yn amodol.

**2.2** Dywedir felly y cynhelir unrhyw ymweliad safle a drefnir heddiw ar **ddydd Gwener 5 Ionawr 2001** (amser i'w gadarnhau).

## 3. AELODAETH Y PANEL YMWELIAD SAFLE

**3.1** Bydd hyn yn dibynnu ar Gydbwysedd Gwleidyddol.

## 4. ARGYMHELLIAD

**4.1 Bod Aelodau yn cytuno cynnal ymweliad safle fore dydd Gwener 5 Ionawr, 2001.**